Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 456 AWST 2023 | AM DDIM


## CERDDOR O ABERTAWE'N CAEL EI GOFIO

-OSIAN OWEN

David Vaughan Thomas oedd cerddor pwysicaf a mwyaf dylanwadol ei gyfnod yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, wrth iddo ymdrechu i symud ei wlad ymlaen o dueddiadau ceidwadol cyfansoddwyr a pherfformwyr oes Victoria.

Ac yn David Vaughan Thomas: Bywgraffiad y cerddor mae Eric Jones yn bwrw golwg ar ei ddoniau cerddorol digamsyniol fel cyfansoddwr, arweinydd, beirniad, darlithydd a datgeinydd, yn ogystal â'i dalentau trawiadol fel llenor, a hynny yn y ddwy iaith

Er i nifer o gerddorion yn Lloegr ddisgwyl iddo aros yn eu plith, gan ei rybuddio mai cam gwag fyddai dychwelyd i Gymru, roedd ei famwlad yn ei ddenu wrth iddo deimlo'r angen am genhadu cerddorol yno, ac wedi priodi, ymgartrefodd ef a'i deulu ym Mhontarddulais, ac wedyn yn Abertawe.




Sefydlodd ei hun fel cerddor ac athro yn gweithio ar ei liwt ei hun, gyda rhaglen waith ddi-dostur, a chomisiynau pwysig yn ei gyrraedd o'r Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau eraill, gyda pherfformiadau yn Lloegr yn ogystal â Chymru.

Mae gan yr awdur ei hun gysylltiadau cryf ag ardal Abertawe wrth gwrs. Wedi ei eni a'i fagu ym Mhontarddulais, addysgwyd Eric Jones yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Tregŵyr. Yn ystod ei yrfa ym myd addysg bu'n Bennaeth y Celfyddydau Creadigol yn Ysgol Mynyddbach ac yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gyfun Gŵyr. Ym mis Ionawr 2018 der-byniodd radd Doethur er anrhydedd gan Brifysgol Abertawe am ei gyfraniad i addysg a cherddoriaeth yng Nghymru. Ysgrifennodd gofiant (Maestro) i'r arweinydd corawl, Noel Davies, ynghyd â chyfrol o hanes Côr Meibion Pontarddulais (Brothers Sing On).

## LLOND NEUADD I LANSIO LLYFR ERIC JONES

-HEINI GRUFFUDD

Daeth llond neuadd o bobl i Hope-Seilo Pontarddulais i lansio llyfr Eric Jones ar y cyfansoddwr David Vaughan Thomas.


Un o'r Bont yw Eric a soniodd am ei gysylltiadau cyntaf â chyfansoddiadau David Vaughan Thomas, gan gynnwys Nant y Mynydd, mewn eisteddfodau. Daeth yn gyfarwydd â cherddoriaeth DVT mewn corau, pan oedd yntau yn y coleg, gan wneud argraff fawr arno.

Ar ôl i Eric ddechrau dysgu a mynychu eisteddfodau byddai'n gyson yn clywed baritonau'n canu Berwyn, gan David Vaughan Thomas.

Byddau Eric wedyn yn mynd ati i gasglu gwybodaeth am y cyfansoddwr, a chael ei danio gan lyfr Lynn Davies.

Aeth Eric ei hun ati i gyfansoddi, ond manteisio wedyn ar y cyfnod clo i fynd ati i ysgrifennu erthygl, ond tyfodd yr erthygl yn llyfr.






Gant a hanner o flynyddoedd yn ôl y ganed Vaughan Thomas, a allai fod wedi dod i fri yn Lloegr, ond mynnodd ddychwelyd i Gymru, a'i ddiddordeb mewn cerddi Cymraeg. Daeth yn feirniad adnabyddus ac yn gyfansoddwr arloesol, yn gynganeddwr. Roedd yn athrylith, meddai Eric Jones.

Mae ei hanes yn ymwneud â chenedlaetholdeb a hunan-barch y Cymry, meddai Eric.

Cafwyd anerchiad gan yr Athro Iwan Davies a amlinellodd hanes cyfoethog cerddoriaeth yn Abertawe a chyferbynnu hyn â sefyllfa heddiw.

Canwyd dau o emynau Vaughan Thomas a chlywyd rhai o'i ganeuon.

Cafwyd darlleniadau o rannau o'r llyfr gan deulu Eric .

Mae'r llyfr ar gael yn Siop Tŷ Tawe.

## CEWRI'N YMWELD Â CHYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS

-DAVID GWYN JOHN

Daeth ein hen gyfaill Huw Chiswelli festri Seion Newydd, Treforys ganol Mai i ddiddanu aelodau a chyfeillion y Gymdeithas. Bu'n awr ddifyr dros ben yn ei gwmni ag yntau'n canu'r hen ffefrynnau a gyfansoddwyd ganddo. Cafwyd y cefndir i bob cân, oedd yn ychwanegu at y diddordeb.

Diddorol oedd clywed sut oedd ambell gysylltiad o niwl y gorffennol yn ymddangos ym mywyd Huw. Er enghraifft, pan brynodd Huw hen biano o Fryncoch, Castell-nedd rai blynyddoedd yn ôl ni sylweddolodd mai dyna'r union biano y dysgodd ei fam sut i chwarae 70 o flynyddoedd yng nghynt yn Ystalyfera. Yna, ar un adeg, roedd Huw a'i fryd ar symud i gefn gwlad Sir Gâr a gwelodd fwthyn hyfryd yn ardal Cwmdu, ger Talyllychau. Bu bron a'i brynu, ond tynnodd y cais yn ôl. Ymhen rhai misoedd, wrth ddarllen manylion a chofnodion teuluol ar un o dudalennau hen Feibl y teulu gwelodd mai yno, yn yr union fwthyn y bu ei hen-dad-cu yn byw, cyn symud i Gwmtawe, ganrif a hanner yn ôl. Rhyfedd !

Noson i'w chofio, yn wir, a Huw ar ei orau.



## CÔR TŶ TAWE

-HENI GRUFFUDD

NOSON I DDIOLCH I HELEN A JOHN
NOS FERCHER, 6 MEDI
Os ydych am ddod, rhowch wybod
i un o'r pedwar yn fuan,
os oes modd
(fan hwyraf erbyn 21 Awst).
Croeso i gyn aelodau.




## YR YMGYRCHYDD WAYNE WILLIAMS YN NHREFORYS

-DAVID GWYN JOHN

Yr ymgyrchydd iaith Wayne Williams, gynt o Borthmedd (Portmead), Abertawe oedd siaradwr ddiwedd Mehefin. Cawsom hanes ei fagwraeth ar ystâd tai cyngor lle nad oedd y Gymraeg yn bodoli, er bod ganddo dwy fam-gu oedd yn medru'r iaith a'r llall wedi ei cholli. Arddelai teulu ei fam berthynas pell â Waldo Williams. Tra'n Ysgol Penlan taniwyd diddordeb Wayne yn y Gymraeg gan athrawon brwdfrydig ac aeth ymlaen i astudio lefela yn Ysgol Merched Mynyddbach, lle'r oedd Mari, merch ifanc lân o Lansamlet yn dilyn yr un cwrs. (Nid oedd amserlen Ysgol Penlan lle'r oedd Wayne yn ddisgybl yn caniatáu iddo ddilyn cwrs Hanes a Chymraeg a bu raid iddo gael ei wersi Cymraeg yng nghanol merched Mynyddbach). Yr athrawes yna oedd Marilyn Roberts, aelod o Gymdeithas Gymraeg Treforys. Mynegodd Wayne ei ddiolch i Aelwyd yr Urdd, Treforys am y cyfleoedd a gawsant yn y 60au i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfeiriodd at David Gwyn a Pam John, ac Elaine ac Ifor John am eu hymroddiad bryd hynny yn cynnig darpariaeth i bobl ifanc gwrdd, a siarad Cymraeg. Yn yr aelwyd, bryd hynny, roedd nifer o unigolion a theuluoedd oedd yn gefnogol i'r iaith ac a gyfrannodd, maes o law, i fywyd Cymraeg yn lleol a chenedlaethol.


Roedd chwyldro ar droed yng Nghymru'r adeg yma ac ieuenctid Cymru yn ymateb i ymgyrchoedd statws y Gymraeg a'r Arwisgiad. Taflodd Wayne ei hun i'r frwydr wrth brotestio a chael ei hun o flaen ei well ac mewn carchar, sawl gwaith. Ymaelododd â Chymdeithas yr Iaith a daeth yn arweinydd y mudiad ar un o gyfnodau mawr ei hanes. Yn y frwydr dros Sianel Gymraeg tacteg aelodau Cymdeithas yr Iaith oedd dringo mastiau trosglwyddo ac aros yno am oriau tan i'r heddlu gyrraedd i'w harestio.

Derbyniodd Wayne addysg brifysgol yn Aberystwyth a'i gymhwyso i fod yn athro. Tra'n dysgu yn Llanidloes fe'i carcharwyd am naw mis am ei ran dros ymgyrch Sianel Gymraeg. Penderfynodd awdurdodau'r ysgol ei ddiswyddo a chododd ymgyrch genedlaethol i'w gefnogi a chefnogwyd ef gan UCAC (Undeb Athrawon). Y canlyniad oedd iddo gadw ei swydd. Yn ystod ei yrfa hir ym maes addysg bu'n paratoi deunydd dysgu Cymraeg, arolygu ysgolion.

Braf oedd cael yr hanes a'n hatgoffa o ymroddiad ac aberth unigolion dros y Gymraeg yn y cyfnod lled ddiweddar. Rhyfedd oedd bod Wayne, o gefndir Saesnig wedi cyflawni cymaint, ac arwain y ffordd trwy ymgyrchu dros faterion yr ydym yn cymryd yn ganiataol, megis arwyddion ffyrdd, darpariaeth Gymraeg mewn mannau cyhoeddus, ysgolion dwyieithog a sianel Gymraeg. Bu ei aberth ef, a'i debyg, ein galluogi ni i ddefnyddio'n hiaith yn ddidrafferth a ddiffwdan. Dioddefodd ddichell ei gyd-Gymry yn ddewr a diolchwn iddo am yr hyn a gyflawnodd.

Roedd yn noson ddiddorol iawn ac yn gyfle ail-fyw cyfnod pwysig yn hanes ein gwlad. Braf oedd cael cwmni Mari, ei briod a'i ferch Llian yn y cyfarfod.

Cyflwynwyd gan David Gwyn John, cyn arweinydd Aelwyd Treforys a diolchwyd iddo gan Marilyn Roberts, athrawes Gymraeg Wayne a Mari yn Ysgol Mynyddbach, flynyddoedd maith yn ôl, ac sydd wedi cadw cysylltiad â'i chyn-ddisgyblion Mari a Wayne.


CARCHARU WAYNE

Wayne Williams o Abertawe, a ddedfrydwyd gan y barnwr Dewi Watkin Powell (cenedlaetholwr o fath ar un adeg) i dri mis mewn Canolfan Gaethiwo am beri difrod gwerth £35 i gerbydau'r BBC ddechrau'r flwyddyn, fel rhan o'r ymgyrch dros Sianel deledu Gymraeg.

## DATHLU GWAITH ATHRYLITH O GYMRO

-DAFYDD GWYLON

Ces i anrheg gan wraig o Lanedi, Pontarddulais, pan rown i dipyn yn iau.
Rhoddodd Mrs Ungoed Johnson gopi o lyfr ei diweddar ŵr imi.
Teitl y llyfr yw 'Richard Price Philosopher and Apostle of Liberty', a'r awdur Roland Thomas. Hefyd fe fu Mrs Johnson yn organydd yng Nghapel y Bedyddwyr yn Llanedi.

Yn ddiweddar ry'n ni wedi bod yn dathlu Trichanmlwyddiant geni Richard Price, meddyliwr nodedig ac arloeswr mewn nifer o feysydd. Cafodd ei eni ym mhentre Llangeinor ger Penybont ar Ogwr yn 1723. Roedd diddordebau Richard Price yn eang a'i ddylanwad yn helaeth. Roedd ei syniadau a'i 'sgrifennu yn arloesol ym maes gwleidyddiaeth, economeg a chymdeithaseg. Fe'i ddisgrifiwyd hefyd yn 'athrylith ym maes mathemateg.' Roedd y prif weinidog ar y pryd yn gwrando ar ei farn.

Fe fu Cynhadledd yn ddiweddar yng Nghaerdydd i drafod bywyd a chyfraniad Richard Price ar achlysur dathlu ei eni.

Yn y Gynhadledd roedd hi'n ddifyr gwrando ar acenion amrywiol y Siaradwyr.
Fe fu cyfraniadau gan ddarlithwyr o brifysgolion yn Ffrainc, Chicago, Israel, Tasmania yn ogystal a Chymru yr Alban a Lloegr yn trafod dylanwad a chyfraniad Richard Price .



Y cartref lle magwyd Richard Price,
Llangeinor, Pen-y-bont ar Ogwr

Cafodd y Cymro dipyn o ddylanwad ar syniadau gwleidyddol am Ryddid yr unigolyn
a threfn cymdeithas. Roedd Price yn grefyddol a gwleidyddol yn cynrychioli safbwynt nifer o enwadau ymneilltuaeth a thai cwrdd y cyfnod yn Lloegr ac i raddau yng Nghymru. Clerigwyr ac arweinwyr yr Eglwys Wladol oedd yn rheoli yn y rhan fwya o'r ardaloedd yn wleidyddol a chymdeithasol. Doedd syniadau Price ddim yn dderbyniol i nifer o arweinwyr y sefydliad Seisnig.
Ymgyrchai Price hefyd yn erbyn caethwasiaeth. Roedd ganddo ddiddordeb a meistrolaeth ar faes megis yswiriant i helpu gweddwon ac aelodau anghenus cymdeithas.
Yn 1789 clywyd ei bregeth ar y testun 'Cariad at Wlad' ble roedd yn cefnogi digwyddiadau cynnar y Chwyldro Ffrengig. Roedd Richard Price yn trafod syniadau am hawliau dinesydd ac yn dadansoddi'r testun yn ddawnus. O fewn cenhedlaeth roedd ei syniadau arloesol yn cael eu derbyn yn weddol gyffredinol gan bobl addysgedig.

Fe fu Richard Price yn weinidog yn Llundain ac roedd yn ymwneud â meddylwyr ac awduron blaenllaw'r cyfnod megis Mary Wollstonecraft.

Syndod oedd gwrando ar gyfraniad Anthony Page o Brifysgol Tasmania yn rhithiol yn y Gynhadledd yng Nghaerdydd. Roedd yn gwneud gwaith ymchwil i hanes y cyfnod ac wedi dod ar draws gohebiaeth o'r ddeunawfed ganrif rhwng dau ffrind yn gohebu yn gyson am destunau gwleidyddol, crefyddol a mwy personol. Mae dros 250 o'r llythyrau ar gael heddiw yn trafod cyhoeddiadau, digwyddiadau a syniadau y cyfnod. Roedd gwaith Richard Price yn cael tipyn o sylw yn yr ohebiaeth rhwng y ddau ffrind - un yn byw yn yr Alban a'r llall yn Lloegr. Tybed fydd'na ddiddordeb tebyg yn ein tecstio a'n e-byst ni heddi gan haneswyr y dyfodol!

Barn...

## LLYGAD DIETHRIN GAN SIMON CHANDLER

-ADOLYGIAD GAN ROB EVANS

Ychydig o ddyddiau yn ôl ces i becyn yn y post oddi wrth Wasg Carreg Gwalch ac ynddo roedd llyfr i mi adolygu ar gyfer Y Wennol, cylchgrawn dw i'n cyhoeddi ar gyfer dysgwyr. Llyfr cyntaf Simon Chandler – Llygad Dieithryn, o Lundain mae Simon yn hanu ac mae wedi syrthio mewn cariad â Chymru a'r iaith Gymraeg. Bellach mae'n byw ym Manceinion ac yn rhedeg grŵp 'Sgwrs a Pheint' yn y ddinas. Ei gartref ysbrydol yw Blaenau Ffestiniog a dyna le mae o wedi gosod ei stori.Roedd chwyldro ar droed yng Nghymru'r adeg yma ac ieuenctid Cymru yn ymateb i ymgyrchoedd statws y Gymraeg a'r Arwisgiad. Taflodd Wayne ei hun i'r frwydr wrth brotestio a chael ei hun o flaen ei well ac mewn carchar, sawl gwaith. Ymaelododd â Chymdeithas yr Iaith a daeth yn arweinydd y mudiad ar un o gyfnodau mawr ei hanes. Yn y frwydr dros Sianel Gymraeg tacteg aelodau Cymdeithas yr Iaith oedd dringo mastiau trosglwyddo ac aros yno am oriau tan i'r heddlu gyrraedd i'w harestio.
Almaenes yw'r prif gymeriad ac mae hi'n siarad Cymraeg a pheidiwch â meddwl bod hynny'n od chwaith achos mae llawer o bobl yn dysgu Cymraeg tu allan i Gymru ac yn cyrraedd safon uchel.

Rhan o'r rheswm yw bod rhaid i'r gwersi Cymraeg fod ar-lein yn ystod y pandemig a hynny'n caniatáu i bobl dros y byd ymuno â'r cyrsiau. Byddech yn synnu'r safon maen nhw'n gallu cyrraedd a'u brwdfrydedd dros yr iaith.
Mae'r stori yn ddechau ar fore dydd Iau'r 10fed Mehefin 1915 yng ngwersyll-garchar Fron Goch ger y Bala a dyma le wnaeth Friedrich von Hertling glywed a syrthio mewn cariad â'r iaith Gymraeg, cymaint, i ddweud y gwir, iddo benderfynu ei ddysgu hyd ar rugled.
A dyma ni'n cael ein trosglwyddo i'r presennol a chael ein cyflwyno i'r Almaenes Katja a hithau wedi darganfod llun o'i hen, hen dad-cu a hefyd lythyr, yn Gymraeg oddi wrth rywun o Flaenau Ffestiniog ac ia, Friedrich von Hertling oedd y dyn yna.
Mae hi eisiau dysgu mwy wrth gwrs ac mae hynny'n dod â hi i Flaenau Ffestiniog ac Eisteddfod Llanrwst 2019. Dydw i ddim yn dweud mwy ond mae'r llyfr yn tynnu chi i mewn o'r dechrau cychwyn ac mae'n anodd ei roi i lawr. Mi fydd llawer o lyfrau newydd ar gael yn yr Eisteddfod ond gwnewch yn siŵr bod y llyfr yma ar ben eich rhestr.

## YSGOL GYMRAEG Y CWM YN DATHLU DEGAWD

-CATRIN PRYCE

Ar Ddydd Gwener y 31ain o Fawrth fe ddathlodd Ysgol Gymraeg y Cwm benblwydd arbennig iawn yn 10 oed. Cafwyd bore byrlymus o gyngherddau ar gyfer rhieni, llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol ac yna yn y prynhawn mwynhaeodd y plant de parti anferth. Daeth fan hufen iâ, cestyll sboncio, Mr Urdd, Menter Iaith a disgyblion Bryn Tawe i ddiddanu'r disgyblion, a serch y tywydd garw bu'n ddiwrnod anhygoel. Anodd yw credu pan agorodd drysau Ysgol y Cwm am y tro cyntaf ym mis Medi 2012 taw dim ond naw o blant fynychodd ddosbarthiadau'r Meithrin a Derbyn.
Agorwyd yr ysgol yn swyddogol ym mis Mawrth 1af 2013 ac erbyn heddiw mae dros 130 o blant ardal Bonymaen, Llansamlet a'r fro yn derbyn addysg Gymraeg yn yr ysgol.
Yno i longyfarch yr ysgol yn ystod y gwasanaeth oedd Mrs Helen Morgan Rees, cyfarwyddwr addysg Sir Abertawe. Soniodd Mrs Morgan Rees am y naws cyfeillgar a gofalgar oedd yn bodoli yn yr ysgol – yn sicr mae Ysgol Gymraeg y Cwm yn cadw arwyddair yr Ysgol, sef 'Gwnewch y Pethau Bychain' yn agos i'w calonnau.

## RECORDERS BRYN-Y-MÔR YN ENNILL

-HEINI GRUFFUDD

Llongyfarchiadau mawr i Grŵp recorders Ysgol Gymraeg Bryn-y-môr am ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri ar y bore cyntaf.
Aelodau'r grŵp oedd Bronwen, Ava, Mali, Ruth, Anwen, Gwen a Martha. Cafodd y grŵp ei hyfforddi gan ddirprwy bennaeth yr ysgol, Linda Williams.



## GWOBR £500 I UNAWDYDD O ABERTAWE

-HEINI GRUFFUDD

Enillodd Kathrine Foxall, myfyrwraig yng Ngholeg Gŵyr, wobr o £500 yn eisteddfod yr Urdd. Barnwyd mai hi oedd yr unawdydd mwyaf addawol yn yr eisteddfod. Bydd yr arian yn gymorth iddi ddatblygu ei doniau. Mae hi'n aelod o Gôr Philharmonig Abertawe, y mae Jonathan Rogers yn ei arwain. Jonathan, sy'n Gymro Cymraeg o Gasllwchwr, yw pennaeth adran gerdd y Coleg. Roded Katherine yn un o'r unawdwyr ifanc yng nghyngerdd haf y Côr yn Eglwys y Santes Fair nos Sadwrn, 10 Mehefin.



## LÔN LAS YN FUDDUGOL YN Y DAWNSIO GWERIN

-HEINI GRUFFUDD

Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Gymraeg Lôn-las am ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am barti dawnsio gwerin o dan ddeuddeg. Hyfforddwyd y parti gan Karen Davies a Karen Thomas, pennaeth yr ysgol.



## DAWNSWYR STRYD YSGOL Y CWM

-HEINI GRUFFUDD

Am y tro cyntaf, bu Ysgol Gymraeg y Cwm yn cystadlu yn eisteddfod genedlaethol yr Urdd. O dan hyfforddiant eu hathrawes Kathryn Squires enillodd y plant y drydedd wobr am ddawnsio stryd. Llongyfarchiade mawr iddyn nhw, ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn dawnsio ar strydoedd Abertawe.



## PIANYDD IFANC GORAU'R WLAD

-HEINI GRUFFUDD

Llongyfarchiadau i Harri Llywelyn Trick, un o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr, am ennill y gystadleuaeth unawd piano i ddisgyblion blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

## CYWAITH BRYN TAWE YN DOD I'R BRIG

-MEINIR JONES

Llongyfarchiadau mawr i Gywaith Iau a Chywaith Hŷn Bryn Tawe am ennill y gwobrau cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Thema'r Cywaith Iau eleni oedd 'Y Sîn Roc Gymraeg'.





## CWIS LLYFRAU YSGOLION UWCHRADD

-MEINIR JONES

Cynhaliwyd Cwis Llyfrau i rai o ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 ysgolion uwchradd yr ardal, sef Ysgolion Ystalyfera, Gŵyr, Bryn Tawe a Bro Dur. Cartref y cwis eleni oedd Ysgol Bryn Tawe a diolch yn fawr iawn i'r Athro Tudur Hallam, Alpha ac Emily o Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe am feirniadu'r trafodaethau. Gwobrwywyd timau'r buddugol gyda thocynnau llyfrau a llongyfarchiadau hefyd i siaradwyr gorau'r diwrnod! Cafwyd diwrnod hwylus o drafodaethau, cwisiau a gweithgareddau amrywiol i ddathlu darllen a llyfrau!







## BL.7 BRYN TAWE YN YMWELD Â'R YSGOLION CYNRADD

-MEINIR JONES

Cafodd disgyblion blwyddyn 7 Bryn Tawe gyfle i fynd i'n hysgolion cynradd i ddarllen llyfrau am chwedlau (llyfrau a grëwyd ganddyn nhw mewn gwersi Cymraeg yn ddiweddar). Diolch yn fawr i Ysgol Tirdeunaw, Gellionnen, Tan-y-Lan a'r Cwm am eu croeso cynnes!










## GWOBR TLWS YR IFANC I FYFYRIWR YSGOL GYFUN GŴYR

-ELIN MEEK

Llongyfarchiadau i Mirain Francis o Ysgol Gyfun Gŵyr am ennill gwobr Tlws yr Ifanc yng Ngŵyl Fawr Aberteifi neithiwr. Daeth Mirain i'r brig yn erbyn 29 o gystadleuwyr eraill a chafodd glod mawr am ei stori fer gan Mrs Eirian Wyn Jones, y beirniad. Enillodd Mirain dlws, cwpan i'w gadw am flwyddyn a gwobr ariannol o £100.



## UWCH SWYDDOGION NEWYDD

-CATRIN LYALL

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm newydd swyddogion o swyddogion a gafodd eu hethol yn ddiweddar. Ein prif swyddogion newydd ydy Grace Browne a Steffan Thomas. Ypedwar uwchswyddog a fydd yn eu cynorthwyo ydy Jonah Eccott, Jacob Elsey, Evie Harris a Nataya Lewis. Pob lwc i'r tîm.



## MYFYRWYR GŴYR YN CODI ARIAN DROS ELUSEN

-RHODRI EVANS

Ar ran Ysgol Gyfun Gwyr, pleser oedd gallu cyflwyno siec o dros £450 heddiw i elusen Swansea Asylum Seekers Support ar ôl cynnal gweithgareddau yn ystod Wythnos Ffoaduriaid. Diolch i ddisgyblion Bl.7 am gynrychioli'r ysgol ac am eu cwestiynau aeddfed a synhwyrol.



## CYSTADLU YN YR EIDAL

-CATRIN LYALL

Ar ddechrau mis Gorffennaf bu Ella Mai Davies o fl 12 yn Turin mewn cystadleuaeth gymnasteg, sef y Turin Acro Cup. Roedd Ella yn cystadlu mewn tîm o dair ac yn cynrychioli Cymru wrth iddyn nhw gystadlu yn erbyn deuddeg o wledydd eraill gan gynnwys yr Eidal, Lloegr, Israel, Wcrain a Monacco. Roedd dwy rownd o gystadlu i gymhwyso ac yna ffeinal ar y nos Sul, gyda'r holl bwyntiau yn cael eu cyfri. Daeth Ella a'i thîm yn ail – arbennig! Ymlaen nawr i Southampton yn yr hydref pan fydd Ella'n cystadlu gyda thîm newydd. Pob dymuniad da i ti Ella!





## RAS YR IAITH

Cawsom ni fore braf ganol fis Mehefin yn dathlu Ras yr Iaith gyda rhai o ysgolion y Sir Iawr ym Mae Abertawe! Daeth tua 250 at ei gilydd i orymdeithio ar hyd y promenâd rhwng Blackpill a St Helen i ddathlu'r iaith Gymraeg.
Roedd yn wych i allu dathlu'r iaith Gymraeg gyda'n gilydd yn ein hardal leol!



Llun gan Celf Calon

## BORE O GEMAU YN YSGOL TREGŴYR

-ELLIE THOMAS, CYDLYNYDD CYMREICTOD TREGŴYR

Roedd yn braf cynnal Bore Gemau Cymraeg ar gyfer Criwiau Cymraeg yr ysgolion cynradd ar ddechrau Gorffennaf. Diolch yn fawr iawn am helpu Menter Iaith Abertawe!





Lluniau gan Ellie Thomas

## TŶ TAWE

Diwrnod prysur arall yn Nhŷ Tawe yr wythnos ddiwethaf gydag ymweliad gan ddosbarth Dysgu Cymraeg Addysg Oedolion Cymru, ac ein cylch Ti a Fi olaf tan fis Medi!




## COFFI A CHLONC

Galwch draw i Dŷ Tawe ar fore dydd Iau am siawns i sgwrsio am ymarfer eich Cymraeg!

Sesiwn gyntaf - Mehefin 8fed




## Y FENTER YN DERBYN SAFON DDIBYNADWY LEFEL 1

Falch iawn i gyhoeddi fod Menter Iaith Abertawe wedi derbyn yr achrediad Safon Ddibynadwy Lefel 1 i gydnabod y gwaith rhagorol y mae'n ei wneud fel sefydliad trydydd sector yng Nghymru.

SAFON DDIBYNADWY NCVO

SAFON DDIBYNADWY LEFEL 1 NCVO

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Medi erbyn Awst 25ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

09.09 - Sadwrn Acwstig (The Railway Inn)

15.09 - Angel Hotel + The Bad Electric + Ffredi Blino + Head Noise (Elysium)

30.09 - Tecwyn Ifan (Tŷ Tawe)

03.11 - HMS Morris (Elysium)

Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe







